



Mr Mohammed Mehmet
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
LL15 1YN

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

17 Ebrill 2015

Annwyl Mr Mehmet

Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a roddir o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006: Gwybodaeth Ychwanegol Angenrheidiol

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi unwaith eto am roi ymateb prydlon i'm Hanghenion Gweithredu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chanfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Erbyn hyn, rwyf wedi cael cyfle i adolygu pob ymateb gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad ac rwyf wedi amgáu fy arfarniad o'ch ymateb chi.

Os codoch chi gwestiynau penodol ynghylch fy Anghenion Gweithredu, mae fy ymateb i'r rhain wedi'i atodi.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Fel y gwelwch o'm dadansoddiad i, rwyf wedi nodi'n glir a yw pob elfen yn eich ymateb yn 'dderbyniol', yn 'rhannol' (angen rhagor o wybodaeth) neu'n 'annerbyniol'. Mae 'derbyniol' yn golygu bod lefel y sicrwydd sydd wedi'i roi imi ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn ddigonol; mae 'rhannol' ac 'annerbyniol' yn golygu bod arna i angen rhagor o wybodaeth er mwyn

cael fy sicrhau y bydd yr Angen Gweithredu'n cael ei roi ar waith ac y bydd y canlyniad arfaethedig yn cael ei gyflawni.

Pan wyf wedi dod i'r casgliad bod elfen yn eich ymateb naill ai'n rhannol neu'n annerbyniol, mae arna i angen rhagor o wybodaeth neu ymagwedd ddiwygiedig er mwyn cael fy modloni bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r Angen Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol. Dylech ddarparu'r wybodaeth hon imi erbyn **dydd Gwener 15 Mai 2015**, yn unol â'r amserlenni a bennir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Os nad ydych yn glir ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eich ymateb, yn arbennig felly beth fyddai'n rhoi'r lefel sicrwydd rwy'n chwilio amdani, neu os oes gennych gwestiynau manwl am yr Anghenion Gweithredu, mae croeso ichi gysylltu â mi.

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu, ar sail yr wybodaeth bellach a fydd yn dod i law, y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu. Yn ychwanegol at gyhoeddi'r wybodaeth ar fy ngwefan, byddaf hefyd yn gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol, o ran trosolwg o'r camau sydd ar eu hanner a'r camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'm Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso, Daisy Cole, ar 08442 640670.

Yn gywir



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyngor Sir Ddinbych

Angen Gweithredu 1.6

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd eiriolaeth. O ran hyfforddiant, mae'r ymateb yn cyfeirio at Age Connects sy'n rhagweithiol yn mynd i gartrefi gofal yn y sir ac yn cynnal hyfforddiant ymwybyddiaeth gyda'r staff i hybu dealltwriaeth o eiriolaeth. Gellid gwella'r ymateb pe bai modd i'r Awdurdod Lleol esbonio a ydy hyn yn cyfeirio at bob cartref gofal yn y sir ynteu at y rhai sy'n cael eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol yn unig.

Mae'r ymateb yn datgan bod IMCAs/eiriolwyr bob amser yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cau cartrefi gofal o'r cychwyn. Mae'r Awdurdod Lleol yn datgan hefyd fod gan ei gartrefi gofal eiriolaeth wedi'i threfnu i breswylwyr trwy Age Connects.

Ond, dydy'r ymateb ddim yn mynd i'r afael â nifer o bwyntiau allweddol yn anghenion y Comisiynydd, er enghraifft POVA neu symud yn uniongyrchol o'r ysbyty i gartref gofal.

Mae'r ymateb hefyd yn nodi nad ydy Pecynnau Croeso a thafleuni cartrefi ar hyn o bryd yn cynnwys gwybodaeth am eiriolaeth. Er bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod y diffyg hwn ac yn nodi y bydd yn cael ei gywiro, dydyn nhw ddim yn darparu llinell amser.

Angen Gweithredu 2.2

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos parodrwydd i gydymffurfio ag Angen y Comisiynydd. Mae'r ymateb yn datgan y bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda chydweithwyr ieuchyd i sicrhau bod gwaith arbenigol ac adsefydlu yn hygyrch mewn cartrefi gofal; ond, gellid gwella'r ymateb trwy linell amser a thrwy enwi unigolyn atebol.

Er hynny, mae'r ymateb yn nodi mai arfer cyfredol Swyddogion Adolygu ydy sicrhau bod gan breswylwyr fynediad i ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol a gwasanaethau arbenigol eraill wrth gynnal adolygiadau. Mae angen sicrwydd ynghylch sut y caiff preswylwyr eu helpu i gael mynediad i'r amrediad llawn o wasanaethau arbenigol sydd ar gael.

Angen Gweithredu 3.2

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr

cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwyllo ac asesu perfformiad.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn cydnabod bod angen yr angen gweithredu hwn ac yn datgan y bydd yn y cyfamser yn monitro lle mae hyfforddiant dementia eisoes yn digwydd.

Mae'r Awdurdod Lleol yn datgan bod timau Contractau ac Adolygu eisoes wedi derbyn hyfforddiant dementia i geisio deall anghenion preswylwyr sydd â dementia. Mae'n mynd ymlaen i ddatgan bod staff a rheolwyr yng nghartrefi'r Awdurdod Lleol wedi derbyn hyfforddiant dementia; ond, mae'r ymateb yn cydnabod bod angen hyfforddiant mwy penodol. Does dim arwydd fodd bynnag o sut y caiff hyn ei drafod a does yna ddim arwydd o linellau amser.

Angen Gweithredu 3.3

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o bwysigrwydd cyfeillio, gan ddatgan y bydd yn cychwyn cael Swyddogion Adolygu i annog cartrefi gofal i wneud gwell defnydd o gyrff gwirfoddol i helpu i gyflawni'r angen hwn ar unwaith.

Mae'r ymateb yn datgan bod ei Bwynt Mynediad Sengl (SpOA) yn cynnwys cydlynnydd Cyrff Gwirfoddol. Mae'n fater i'w groesawu bod Swyddogion Adolygu yn defnyddio'r adnawdd hwn i helpu cartrefi gofal i ddarganfod cymorth ychwanegol i breswylwyr. Hefyd, mae'r Awdurdod Lleol yn comisiynu gwasanaeth o'r enw 'Speak Up' gan Age Connect sy'n

annog preswylwyr i siarad drostyn nhw eu hunain trwy gyfrwng cyfarfodydd rheolaidd yn y cartref gofal. Mae'r Awdurdod Lleol yn datgan bod hyn eisoes wedi esgor ar greu sawl cyfeillgarwch newydd. Mae hyn yn dangos deilliant i bobl hŷn sy'n cyd-fynd â'r angen.

Mae'r Awdurdod Lleol yn datgan bod ei gartrefi ei hun yn annog y preswylwyr i gynnal cyfeillgarwch a bod gwasanaethau eglwys yn cael eu trefnu mewn cartrefi gofal. Gwneir trefniadau hefyd i breswylwyr sy'n dymuno mynychu gwasanaethau i ffwrdd o'r cartref.

Er bod hyn i'w groesawu, mae angen gwaith pellach i sicrhau bod cyfeillio yn cael ei drafod yn ehangach i ateb amgylchiadau'r holl breswylwyr. Gellid gwella'r ymateb hefyd trwy dystiolaeth o gynllun gweithredu a thrwy enwi swyddog atebol i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gallu cyflawni'r angen hwn mewn gwirionedd.

Angen Gweithredu 5.6

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bwyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn dangos parodrwydd i weithio gyda phartneriaid i sefydlu Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol. Ond, codir pryderon am gyllido'r prosiect cychwynnol a chefnogaeth barhaol i'r gwasanaeth hwn.

Angen Gweithredu 6.2

Casgliad Cychwynnol – Rhannol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o bwysigrwydd gwranddo ar leisiau pobl hŷn a sicrhau bod camau'n cael eu cymryd ynglŷn â'r materion a godir.

Mae'r ymateb yn nodi bod yr Awdurdod Lleol eisoes wedi sefydlu proses o gasglu adborth y preswylwyr gyda'u Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid. Ond, does yna ddim esboniad o sut mae hyn yn gweithio.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn datgan ei fod yn comisiynu Age Connects i ddarparu'r prosiect 'Speak Up' sy'n casglu barn y preswylwyr ar y gwasanaethau y maen nhw'n eu cael. Ond, dydy'r ymateb ddim yn datgan sut y caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio i wella gwasanaethau.

Mae'r ymateb yn datgan bod Swyddogion Adolygu yn casglu barn y preswylwyr yn ystod adolygiadau o gartrefi gofal. Er hynn, does dim arwydd clir o sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wella gwasanaethau.

Mae'r ymateb yn esbonio bod cartrefi sy'n cael eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol yn cynnal adolygiadau sicrwydd ansawdd gyda phreswylwyr a'u teuluoedd yn flynyddol, ac mae hyn yn bwydo gwelliannau parhaus yn y gwasanaethau. Byddai enghraifft ymarferol yn egluro'r ymateb hwn ymhellach.

Gellid gwella'r ymateb trwy ddatganiad clir am ddeilliannau ar gyfer ansawdd bywyd pobl hŷn trwy wrando a gweithredu. Heb y dystiolaeth hon a'r dadansoddiad hwn a heb linell amser ac enw swyddog atebol, dydy hi ddim yn glir sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cyflawni'r Angen hwn mewn gwirionedd.

Angen Gweithredu 6.7

Casgliad Cychwynnol – Rhannol

6.7 Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, yn cynnwys cyfeiriad penodol at
- bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrâu
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg ynghylch yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal
- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylai manylion ychwanegol ynghylch gofynion adrodd yn ôl gael eu cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio.

Er bod ymateb yr Awdurdod Lleol fel pe bai'n cytuno ag angen gweithredu'r Comisiynydd, mae'n codi pryderon am sut y caiff Ansawdd Bywyd ei fesur. Mae'r ymateb hefyd yn cwestiynu sut y caiff Hawliau Dynol eu cynnal ac yn bwysicach, sut y caiff hyn ei fesur.

Mae'r ymateb yn dadlau y bydd angen i unrhyw broses newydd fod yn eglur ac na ddylai fod yn seiliedig ar ddadansoddiad goddrychol ac y dylai

pob Awdurdod Lleol adrodd yn unol â hynny. Mae'r rhain yn faterion pwysig y dylid eu hegluro ym Mil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Er y cydnabyddir bod yr Awdurdod Lleol wedi mynegi amheuan, fe fyddai arwydd cliriach o barodrwydd i gydymffurfio â'r Angen Gweithredu a chynllun gweithredu clir a llinell amser i ddatblygu a chynhyrchu Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cryfhau'r ymateb hwn. Dylid codi unrhyw gwestiynau am hyn yn uniongyrchol gyda Swyddfa'r Comisiynydd.

Atodiad 1:

Cyngor Sir Dinbych, cwestiynau a godwyd

Angen Gweithredu 2.4

Cwestiwn:

“Er ein bod yn cytuno’n llwyr â’r angen, rydym yn bryderus am yr effaith bosibl ar gostau. Er ei fod wedi’i anelu at gartrefi newydd yn unig, fe fyddai’n ddiamau yn cael effaith ar draws y sector cyfan. Oni bai bod y cartrefi presennol yn gweithredu yn ôl safon debyg, byddai yna effaith dwy haen. Felly yn y pen draw, fe fyddai rhywun yn gobeithio gweld y safon hon ym mhob cartref gofal. Y naill ffordd neu'r llall, mae yna effaith ar gostau'r cartrefi ac felly ar yr Awdurdodau Lleol a'r Awdurdodau Iechyd sy'n prynu'r gwasanaethau.”

Mae'r cwestiwn hwn wedi'i ddehongli fel pe bai'n ymwneud â'r effaith ar gostau, a rhoi'r canllawiau ar yr arferion gorau cenedlaethol am amgylchedd cartrefi gofal a chynorthwyon i fywyd beunyddiol ar waith.

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl mai Llywodraeth Cymru fydd yn arwain ar ddatblygu canllawiau o'r fath ar yr arferion gorau, ar y cyd â phartneriaid perthnasol lle bo'n briodol. Y bwriad y tu ôl i'r Angen Gweithredu hwn ydy sicrhau bod amgylchedd cartrefi gofal, yn fewnol ac yn allanol, yn hygyrch ac yn gefnogol i ddementia a cholledion synhwyaidd.

Mae'r Comisiynydd yn nodi'ch sylwadau mewn perthynas â'r effaith ar gostau a'ch pryderon am 'effaith dwy haen'. Os na chaiff yr Angen Gweithredu hwn ei gyflawni, mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn bosibl na fydd pobl hŷn yn gallu symud o gwmpas cartrefi gofal yn ddiogel ac yn annibynnol gan gynyddu'r risgiau i'w diogelwch personol, megis cwmpo, ac y byddan nhw'n cael trafferth i gyfathrebu â'i gilydd a'r staff gan arwain at arwahanrwydd a mynd i'w cragen. Mae effaith hyn ar gostau yn y tymor hirach, o ran deilliannau unigol a gallu'r gwasanaethau iechyd a gofal

cymdeithasol i ddarparu deilliannau cadarnhaol yn debygol o fod yn llawer uwch na chost buddsoddi yn yr ymyriadau cynnar arfaethedig.

Mae'r Comisiynydd o'r farn y dylai cynnwys hyn wrth ddylunio cartrefi gofal newydd fod yn gost-efeithiol ac y byddai'n sbarduno gwelliannau angenrheidiol ar draws y sector. Dydy'r cartrefi gofal presennol ddim wedi'u gwahardd rhag cyflawni'r Angen Gweithredu hwn, a thrwy hynny osgoi dull o weithredu dwy haen.

Hoffai'r Comisiynydd annog eich Awdurdod i gychwyn deialog â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau eraill a Byrddau Iechyd ar draws Cymru i drafod y dewisiadau ynghylch gweithredu pan fydd y canllawiau ar yr arferion gorau cenedlaethol wedi'u datblygu.

Angen Gweithredu 5.3

Cwestiwn:

“Er ein bod yn cytuno'n llwyr â'r cynnig, rydym yn bryderus am yr effaith uniongyrchol y byddai hyn yn ei chael. Mae hi eisoes yn anodd iawn recriwtio digon o staff. Gall cynyddu'r gofynion adeg recriwtio wella'r argraff ynglŷn â swydd yn y tymor hirach, ond mae'n debygol o achosi problem recriwtio yn y tymor byr/canolig.”

Mae'r cwestiwn hwn wedi cael ei ddehongli fel pe bai'n ymwneud â datblygu a gweithredu set safonol o sgiliau gorfodol a chymwyseddau yn seiliedig ar werthoedd i staff cartrefi gofal.

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl mai Cyngor Gofal Cymru fydd yn arwain ar ddatblygu'r Angen hwn, ar y cyd â phartneriaid perthnasol pan fo'n briodol. Heb gymryd camau o'r fath, mae'r Adolygiad yn nodi y gallai pobl hŷn dderbyn gofal gan bobl nad ydyn nhw'n deall eu hanghenion ac sy'n methu â'u diwallu.

Mae'r Comisiynydd yn nodi'ch sylwadau mewn perthynas ag anawsterau recriwtio tymor byr i ganolig. Fe fydd datblygu set safonol o sgiliau a chymwyseddau yn seiliedig ar werthoedd yn amlwg yn nodi'r hyn sy'n ofynnol gan y gweithlu fel bod pobl hŷn yn derbyn gofal tosturiol ac urddasol sy'n ymateb iddyn nhw fel unigolion. Mae'r Comisiynydd o'r farn y dylai Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a darparwyr cartrefi gofal ddangos bwriad i weithio tuag at gyflogi yn unol â'r safonau hyn. I'r perwyl hwn, hoffai'r Comisiynydd annog eich Awdurdod i gychwyn deialog gynnar ag Awdurdodau eraill a Byrddau Iechyd ar draws Cymru i drafod y dewisiadau ynghylch gweithredu pan fydd y set o safonau wedi'u datblygu.

Angen Gweithredu 6.7

Cwestiwn:

“Er ein bod yn cytuno â'r angen hwn, rydym yn bryderus ynghylch sut mae Ansawdd Bywyd yn cael ei fesur a sut yr ydym yn mesur bod hawliau dynol yn cael eu cynnal, Mae angen i'r broses ar hyn fod yn glir gan y byddai fel arall yn oddrychol ac fe fydd pob ALI yn adrodd ar hyn. Mae angen cytuno ar broses cyn y dyddiad cau ar gyfer adroddiadau.”

Mae'r cwestiwn hwn wedi'i ddehongli fel pe bai'n ymwneud â chyhoeddi Datganiad Ansawdd Blyneddol gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae gan y Comisiynydd ddisgwyliadau clir o ran yr wybodaeth a gyhoeddir gan Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn y bau gyhoeddus ynghylch sut y maen nhw'n cyflawni eu dyletswyddau. Mae angen i bobl hŷn gael mynediad i wybodaeth berthnasol ac ystyrlon am ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir gan gartrefi gofal unigol neu ynddyn nhw. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod angen bod yn fwy agored a thryloyw mewn perthynas ag ansawdd cartrefi gofal ar draws Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn cydnabod ei bod yn bosibl nad ydy rhywfaint o ddata ar gael yn hawdd; ond, ni ddylai hynny lesteirio adroddiadau cadarn a thryloyw ar ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal sydd wedi'u comisiynu ac sy'n cael eu rhedeg gan Awdurdodau Lleol. Mae diffyg tryloywder yn tanseilio gallu pobl hŷn i wneud penderfyniadau priodol, hyder cyhoeddus ehangach ac mae'n gweithredu fel rhwystr sy'n atal newid systemataidd.

Mae'r Awdurdod yn datgan bod angen prosesau adrodd cytûn, ac awydd i egluro sut mae ansawdd bywyd a hawliau dynol yn cael eu mesur. Mae'r Comisiynydd yn disgwyl mai'r Awdurdodau Lleol fydd yn arwain ar ddatblygu a gweithredu'r Angen hwn. Felly, hoffai'r Comisiynydd annog eich Awdurdod i gydgyssylltu â phob Awdurdod ar y broses adrodd a hefyd faterion penodol o ran mesur. Efallai y bydd eich Awdurdod yn dymuno codi hyn gyda Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i hwyluso'r gweithredu.

Angen Gweithredu 6.10

Cwestiwn:

“Mae gennym bryderon bod y nifer o gyfeiriadau a chwynion POVA yn cael eu hystyried yn negyddol. Mewn gwirionedd, yn ôl ein profiad ni, yn aml mae'r darparwyr cartrefi gofal sydd yn adrodd ar y materion yma yn amlwg yn darparu gofal o ansawdd uchel ac mae'r cyfeiriadau hyn yn dystiolaeth o'r gofal y maen nhw'n ei gymryd.”

Mae'r cwestiwn hwn wedi'i ddehongli fel pe bai'n ymwneud â defnyddio data cyfeirio POVA.

Mae'r Comisiynydd yn cytuno bod nifer uwch o gyfeiriadau neu gwynion POVA yn aml yn cael ei weld fel peth negyddol, pan nad ydy hynny efallai yn wir. Ond, mae'r Comisiynydd o'r farn bod cyhoeddi data o'r fath yn

agored yn hyrwyddo tryloywder a bod yn agored mewn perthynas â darparu ansawdd gofal ar draws Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i ddarparwyr cartrefi gofal arwain ar weithredu'r Angen hwn. Wrth wneud hynny fe fyddai gan ddarparwyr cartrefi gofal gyfle i ddarparu gwybodaeth bellach ar fanylion niferoedd y cyfeiriadau a'r cwynion yng nghorff eu hadroddiad – megis bod cyfeiriadau mwy niferus yn dystiolaeth o'r gofal y mae darparwyr yn ei gymryd.